Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad
Senedd Cymru

Commonwealth Parliamentary Association
Welsh Parliament

**CYFARFOD Y GANGEN WEITHREDOL – 19 Hydref 2021**

**COFNODION**

<u>Yn bresennol</u>
Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd
David Rees AS (Is-lywydd y Gangen a Dirprwy Lywydd y Senedd)
Delyth Jewell AS
Alun Davies AS
Natasha Asghar AS
Sam Rowlands AS

<u>Ysgrifenyddiaeth</u>
Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro y Gangen
Enfys Roberts, y Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS.

## 2. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD A CHYFLWYNIAD I WAITH CANGEN Y SENEDD O GYMDEITHASOL SENEDDOL Y GYMANWLAD

Dechreuodd y Cadeirydd drwy groesawu Aelodau i gyfarfod cyntaf y Gangen Weithredol yn y Chweched Senedd, sydd, o dan gyfansoddiad newydd y gangen, ag aelodaeth ehangach sy’n sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau.

Cyflwynwyd Ysgrifenyddiaeth y Gangen i'r Aelodau cyn i’r staff egluro eu rolau, a nodwyd bod yr Aelodau wedi cael sesiwn friffio gynhwysfawr ar gefndir Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a gwaith ein cangen o fewn rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir a'r Gymdeithas ehangach.

Nodwyd bod yr Ysgrifenyddiaeth yn hapus i ymateb i unrhyw ymholiadau gan yr Aelodau yn y dyfodol.

Ailadroddodd y Cadeirydd ei fwriad i ehangu cyfleoedd i holl Aelodau cymwys o’r Senedd drwy gydol y tymor hwn, gan ychwanegu y gallai Pwyllgor Gweithredol newydd y Gangen edrych ymlaen at gymryd rhan yng ngweithgareddau’r Gymdeithas ar lefel y Gangen, ar lefel ranbarthol ac ar lefel ryngwladol yn ystod y Chweched Senedd.

**3. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** – Papur CPA 02-21M **(DOGFEN 1)**

Cytunwyd bod y cofnodion yn adlewyrchiad cywir o’r cyfarfod.

**4. MATERION SY’N CODI O’R COFNODION**

Dim i’w nodi.

***5.*** **ADOLYGIAD O WEITHGARWCH DIWEDDAR**

**<u>Adborth ar gyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau diweddar a chamau dilynol</u>**

- *Gweithgor Covid-19 rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir, “Seneddau Hyblyg"*

  *Cynhaliwyd gan Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yng Nghymru o dan gadeiryddiaeth Rhianon Passmore AS*
  *26 Mawrth*

  Hwn oedd yr olaf o’r cyflwyniadau gan y Gweithgor Covid-19 yn rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir, ac fe'i cynhaliwyd gan Rhianon Passmore AS o’r Gangen hon. Roedd crynodeb o'r sesiwn wedi’i gynnwys yn adroddiad terfynol y rhanbarth ar y gwaith hwn.

- *Cyfarfod Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau, rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir*
  *8 Medi*

  Rhoddodd y Cadeirydd amlinelliad cryno o'r cyd-destun i waith y grŵp hwn er budd yr Aelodau newydd.

  Roedd y cyfarfod anffurfiol hwn ar 8 Medi yn gyfle i Paul Maynard AS (o Senedd y DU), sef cynrychiolydd newydd y Seneddwyr ag Anableddau yn y rhanbarth, gyflwyno ei hun a nodi ei ddymuniad i'r gwaith hwn barhau'n ymarferol, gan ganolbwyntio ar wneud gwahaniaeth penodol.

- *Cynhadledd Flynyddol Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir - Rhif 50*
  *Belffast, Gogledd Iwerddon*
  *20-22 Medi*

  Cafodd y Senedd ei chynrychioli yn y gynhadledd ranbarthol flynyddol hon – digwyddiad wyneb yn wyneb cyntaf y Gangen ers i'r pandemig ddechrau - yn Belffast y mis diwethaf.

  Arweiniodd y Cadeirydd ddirprwyaeth o'r Senedd, ynghyd â David Rees AS, Is-lywydd y Gangen, Rhianon Passmore AS a Sam Rowlands AS. Thema'r Gynhadledd oedd "***Seneddau ar ôl y pandemig***".

  Chwaraeodd ein dirprwyaeth ran lawn yn y gynhadledd, a oedd yn hynod ddiddorol ac wedi'i threfnu'n dda. Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau a oedd yn bresennol yn y gynhadledd i roi adborth ar eu profiadau.

  Bydd adroddiad swyddogol ar y gynhadledd yn cael ei lunio a'i ddosbarthu maes o law.

- *Hyfforddiant Sylwedyddion Etholiadau rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir*
  *13-14 Hydref.*

  Roedd nifer o Aelodau wedi mynegi diddordeb yn y sesiwn hyfforddi hon, ond, yn anffodus, roedd yn gwrthdaro ag Agoriad Swyddogol y Chweched Senedd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai cyfleoedd eraill i gael yr hyfforddiant hwn a bod rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir yn disgwyl cynnig rhaglen arall o sesiynau tebyg yn 2022.

- *Cyfarfod rhithwir â Llefarwyr Senedd Daleithiol y Western Cape (De Affrica)*
  *13 Hydref*

Yn dilyn ymweliad Llywydd y Gangen (Llywydd y Senedd) a'r Cadeirydd â Senedd Daleithiol y Western Cape yn 2019, roedd y Llywydd wedi derbyn gwahoddiad i gynnal cyfarfod rhithwir â Llefarydd a Dirprwy Lefarydd y Senedd Daleithiol.

Trafodwyd y posibilrwydd o gydweithio'n agosach rhwng y ddwy Senedd ar ystod o faterion, fel y gwaith ar seneddau ieuenctid ac ymgysylltu â dinasyddion. Hefyd, gobeithir y gall y Senedd groesawu Llefarwyr y Senedd Daleithiol ar ymweliad ffurfiol yn 2022.

Nodwyd y bydd aelodau o'r Gangen yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol.

- *Gweminar a Chyfres 'Bord Gron' ar yr Hinsawdd gan Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn y DU*
  *15/28 Hydref*

Mae Cangen y DU o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad wedi bod yn arwain gwaith ar y gyfres hon o ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod cyn cyfarfod COP26 yn Glasgow. Cynigiwyd rhai llefydd gwag yn y gweminarau i'n Cangen a rhoddir blaenoriaeth i aelodau o Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd.

**Cam i'w gymryd:** Ysgrifenyddiaeth y Gangen i anfon manylion at yr Aelodau sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y weminar ar 28 Hydref.

## 6. BLAENGYNLLUNIO

**<u>Cyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau arfaethedig</u>**

- *Cyfarfod Pwyllgor Sefydlog rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir, Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad*
  *Rhithwir*
  *Tachwedd 2021* (Dyddiad i'w gadarnhau)

  Roedd rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir yn disgwyl cadarnhad gan Gadeirydd Seneddwyr Benywaidd ein Rhanbarth ar gyfer dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywio ym mis Tachwedd.

- *Sioeau Teithiol Menywod Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn y DU:*

  i) Dydd Mawrth 9 Tachwedd (15:00-18:00)
  ii) Dydd Mawrth 22 Tachwedd (08:00-11:00)

  Bydd Cangen y DU o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn cynnal ail gyfres o Sioeau Teithiol ar gyfer seneddwyr benywaidd sydd wedi wynebu cam-drin ar-lein, neu sy'n pryderu am gamdriniaeth o'r fath a'i heffaith ar ddemocratiaeth.

  Gwahoddwyd Cangen y Senedd i enwebu hyd at bum Aelod benywaidd o'r Senedd i fynd i un o'r sesiynau, a gynhelir ar ffurf gweithdy tair awr o hyd.

  **<u>Cam i'w gymryd:</u>** Yr Ysgrifenyddiaeth i rannu'r manylion fel bod llefydd yn cael eu cynnig i dair aelod benywaidd o'r Gangen Weithredol yn ogystal â Jane Dodds AS (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn y lle cyntaf. Annogir yr Aelodau i rannu'r wybodaeth hon â menywod eraill o fewn eu grwpiau gwleidyddol.

<u>2022</u>

Nododd y Cadeirydd, er gwybodaeth, y dyddiadau a'r lleoliadau tebygol ar gyfer cynadleddau rhanbarthol a rhyngwladol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y flwyddyn nesaf.

- *Cynhadledd Flynyddol rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir - Rhif 51*
  *Ynys Manaw*
  *Mai 2022 (i'w gadarnhau)*

- *Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad - Rhif 65*
  *Halifax, Nova Scotia*
  *Canada*
  *22-28 Awst 2022*

## 7. EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FATER ARALL

***Dewis Cynrychiolwyr ar gyfer Pwyllgor Llywio Cangen Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad.***

Nododd y Cadeirydd fod angen i'r Gangen ddewis Aelodau i'w chynrychioli ar Bwyllgor Llywio Seneddwyr Benywaidd y Rhanbarth ar gyfer y Chweched Senedd. Mae rheolau newydd y Gangen yn nodi:

*"Bydd dwy fenyw sy'n Aelodau o Bwyllgor Gweithredol y Gangen, o wahanol bleidiau gwleidyddol, yn cynrychioli'r Gangen ar Bwyllgor Llywio Rhanbarthol Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad.*

*Gellir cylchdroi'r swyddi hyn, yn ôl yr angen, yn ystod tymor y Senedd os bydd gan Aelodau benywaidd eraill y Pwyllgor Gweithredol ddiddordeb yn y swyddi hyn. "*

Nodwyd bod gan y tair menyw sy'n aelodau o Bwyllgor Gweithredol y Gangen ddiddordeb mewn gwasanaethu ar y Pwyllgor Llywio.

Trafodwyd awgrym posibl ar gyfer rhannu'r cyfleoedd hyn rhwng yr Aelodau dros gyfnod y Chweched Senedd. Cytunwyd mai rhannu fyddai'n ddelfrydol, ond y dylid trafod hyn a sicrhau cydsyniad Rhianon Passmore AS hefyd, o gofio nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn.

**Cam i'w gymryd:** Yr Ysgrifenyddiaeth i hwyluso trafodaethau rhwng aelodau benywaidd o'r Gangen Weithredol i benderfynu ar amserlen ar gyfer rhannu'r rolau hyn.

***Dewis Hyrwyddwr Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau ar ran y Gangen***.

O gofio bod Ann Jones, cyn-Ddirprwy Lywydd y Senedd ac Is-lywydd y Gangen, wedi rhoi'r gorau i'w sedd yn yr etholiad diwethaf, gofynnwyd i'r Senedd ddewis Hyrwyddwr newydd ar gyfer Rhwydwaith Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau.

Rhannodd y Cadeirydd y cyngor a gafwyd gan Jon Davies, Ysgrifennydd y Rhanbarth, o ran y meini prawf ar gyfer dewis Hyrwyddwr newydd, a oedd yn cynnwys yr angen i'r cynrychiolydd arfaethedig fod â '*hanes o hyrwyddo hawliau i bobl ag anableddau'*.

**Camau i'w cymryd:**

**- Y Cadeirydd i ysgrifennu at Ann Jones ar ran ein Cangen a Chadeirydd y Rhanbarth i ddiolch iddi am ei chyfraniad at y rôl hon.**

**- Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon neges at bob Aelod o'r Senedd i hysbysebu'r rôl hon a gwahodd mynegiadau o ddiddordeb.**

***Dewis Cynrychiolydd y Gangen ar gyfer gweithgor "Argyfwng Hinsawdd" rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir.***

Nododd y Cadeirydd ei fod yn awyddus i Aelodau addas gynrychioli'r Gangen ar weithgor strategol newydd y rhanbarth i drafod yr "**Argyfwng Hinsawdd**".

Cytunodd yr Aelodau y dylid cynnig y cyfle hwn i Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, yn gyntaf, cyn rhoi cyfle i Aelodau eraill yn ôl yr angen.

**Cam i'w gymryd:** Y Cadeirydd i ysgrifennu at Llyr Gruffydd.

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Ionawr 2022 (i'w gadarnhau)

DIWEDD Y CYFARFOD